Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Senedd: Adroddiad Blynyddol

Mehefin 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Senedd:
Adroddiad Blynyddol

Mehefin 2023



# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 6**

Rôl y Pwyllgor a'i aelodau ... 6

Crynodeb o weithgareddau ac ystyriaethau ... 9

**2. Canfyddiadau a sylwadau ... 14**

Rheolaeth ariannol ... 14

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac archwiliad allanol ... 15

Archwilio mewnol ... 16

Rheoli risg ... 18

Fframwaith Sicrwydd ... 20

Fframwaith cynllunio ... 21

Adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor ... 22

**3. Edrych tua'r dyfodol ... 23**

**4. Casgliadau ... 24**

**Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd ... 25**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd (y Pwyllgor) yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn ar ei waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

**2.** Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar waith y Pwyllgor mewn perthynas â fframweithiau'r Comisiwn o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol, llywodraethu corfforaethol a sicrwydd, gan gynnwys archwilio. Mae'n amlinellu'r canlynol: cylch gwaith y Pwyllgor; y gwaith a gyflawnwyd a'r canfyddiadau a'r arsylwadau cysylltiedig, yr hyn y mae'r Pwyllgor yn bwriadu canolbwyntio arno yn 2023-24, a'r casgliadau cyffredinol.

**3.** Wrth i'r Comisiwn ddod i arfer â ffyrdd hybrid newydd o weithio, bu'n flwyddyn arall o gyflawniad a pherfformiad sylweddol, gyda darnau mawr o waith yn cael eu datblygu a'u cyflawni, fel yr amlinellwyd yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae wedi cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- ymateb i farwolaeth Ei Diweddar Fawrhydi y Frenhines Elizabeth II a chroesawu Ei Fawrhydi Brenin Siarl III;
- sefydlu Rhaglen Diwygio'r Senedd a threfniadau gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru;
- datblygu strategaeth a rhaglen Ffyrdd o Weithio;
- cwblhau a chyhoeddi Cynllun Cyflawni Corfforaethol newydd;
- lansio system gyllid wedi'i huwchraddio; a
- gwneud cynnydd yn erbyn Strategaeth Carbon Niwtral y Comisiwn, gan gynnwys cynlluniau i gysylltu â'r Cynllun Gwresogi Ardal.

## Rôl y Pwyllgor a'i aelodau

**4.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â'u cyfrifoldebau o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol. Rôl gynghori sydd gan y Pwyllgor, ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Mae'n rhoi cyngor ar ba mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw sicrwydd, gan gynnwys o archwiliadau mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys adolygu polisïau cyfrifyddu ac archwilio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu. Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd

yn darparu mewnwelediad gwerthfawr o'u gwybodaeth a'u profiad o ran edrych tua'r gorwel ar gyfer risgiau a phroblemau posibl. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor (**atodiad 1**) a'r **flaenraglen waith** wedi'u llunio'n unol â chanllawiau Trysorlys EM.

**5.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn asesu annibyniaeth archwilwyr allanol, ac mae'n cael sicrwydd ar hyn gan Archwilio Cymru drwy'r Strategaeth Archwilio Blynyddol. Mae cynrychiolwyr Archwilio Cymru hefyd yn mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor a sesiwn breifat flynyddol gyda'r Pwyllgor. At hynny, mae Archwilio Cymru a Chyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn yn cael ôl-drafodaeth â'r Pwyllgor ar ôl sesiwn flynyddol ar gyfer gwersi a ddysgwyd. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio'n agos gydag archwilwyr mewnol wrth iddynt chwarae rhan strategol allweddol yn rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau mewnol y Comisiwn.

**6.** Mae **aelodau presennol** y Pwyllgor (Comisiynydd a phedwar Cynghorydd Annibynnol, y mae un ohonynt yn Gadeirydd) wedi'u hamlinellu isod ac wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

- Robert Evans, Cynghorydd Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor
- Ken Skates AS, Comisiynydd
- Ann Beynon OBE, Cynghorydd Annibynnol (cyfarfod diwethaf ym mis Tachwedd 2022)
- Menai Owen-Jones, Cynghorydd Annibynnol (cyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2023)
- Dr Mark Egan, Cynghorydd Annibynnol (cyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2023)
- Dr Aled Eirug, Cynghorydd Annibynnol.

**7.** Yng nghyfarfod mis Tachwedd, cyflwynodd Ann Beynon ei myfyrdodau ar ei haelodaeth o'r Pwyllgor ers mis Tachwedd 2018. Roedd y negeseuon allweddol fel a ganlyn:

- ansawdd proffesiynol papurau'r Pwyllgor;
- gwerth a manteision rhannu gwybodaeth, sesiynau briffio a thrafodaethau y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol er mwyn helpu aelodau'r Pwyllgor i ddeall gweithgarwch y Comisiwn;

- yr ymagwedd ystyrlon at archwilio mewnol;
- yr angen i sicrhau rhyngweithio effeithiol rhwng byrddau a phwyllgorau cynghori'r Comisiwn wrth i'r Senedd ddatblygu;
- yr angen am ffocws parhaus ar les staff a phwysigrwydd darparu adborth gonest yn unol â gwerthoedd urddas a pharch.

**8.** Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, i Ann am ei chyfraniad, ei mewnwelediad a'i her adeiladol yn ystod ei chyfnod fel aelod o'r Pwyllgor.

**9.** Roedd yr uwch-swyddogion a ganlyn hefyd yn bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

- Manon Antoniazzi – Prif Weithredwr a Chlerc / Swyddog Cyfrifyddu;
- Nia Morgan – Cyfarwyddwr Cyllid (cyfarfod diwethaf ym mis Tachwedd 2022);
- Simon Hart – Prif Swyddog Cyllid Dros Dro;
- Ed Williams – Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd;
- Siwan Davies – Cyfarwyddwr Busnes y Senedd;
- Arwyn Jones – Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu;
- Gareth Watts – Pennaeth Archwilio Mewnol / Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd;
- Ann-Marie Harkin – Cyfarwyddwr Gweithredol, Archwilio Cymru;
- Gareth Lucey – Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru (hyd at fis Ionawr 2023);
- Clare James – Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru (o fis Ionawr 2023 ymlaen);
- Kathryn Hughes – Clerc Pwyllgor / Rheolwr Risg a Llywodraethu; a
- Buddug Saer – Dirprwy Glerc Pwyllgor.
- Daeth swyddogion eraill y Comisiwn i gyfarfodydd yn ôl yr angen hefyd.

**10.** Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi cofnodion ei gyfarfodydd ar **wefan** y Comisiwn. Mae’r Cadeirydd hefyd yn mynd i gyfarfod y Comisiwn i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor cyn diwedd tymor yr haf.

## Crynodeb o weithgareddau ac ystyriaethau

**11.** Mae'r Pwyllgor wedi setlo i fformat hybrid, a chynhaliwyd y cyfarfod hybrid cyntaf ym mis Tachwedd 2022; hyd at hynny roedd pob cyfarfod wedi bod yn gwbl rithwir (ers mis Ebrill 2020). Mae'r dechnoleg, sy'n caniatáu cyfieithu ar y pryd yn unol â pholisi'r Comisiwn, wedi gweithio'n dda i hwyluso hyn ac mae'n caniatáu i ddewisiadau’r aelodau a'r swyddogion o ran presenoldeb gael eu hystyried.

**12.** Mae blaenraglen waith y Pwyllgor wedi parhau i adlewyrchu'r adrannau cyfrifoldebau a gofynion gwybodaeth a amlinellir yn ei Gylch Gorchwyl (**atodiad 1**). Lle gwnaed penderfyniadau gan y Pwyllgor na fyddai eitemau'n cael sylw yn y cyfarfodydd ffurfiol, dosbarthwyd papurau y tu allan i'r pwyllgor mewn modd amserol a chyfrannodd yr aelodau drwy gyfathrebu'n uniongyrchol â swyddogion perthnasol. Yn ôl yr angen dilynwyd hyn gyda'r cyfle i drafod unrhyw bwyntiau a gododd yn y cyfarfodydd ffurfiol.

**13.** Fel y nodwyd yn adran *Cyflwyniad* yr adroddiad hwn, mae’r Pwyllgor yn cydnabod cyflawniadau’r Comisiwn yn ystod y cyfnod adrodd. Mae wedi cael briffiadau a diweddariadau rheolaidd gan uwch-swyddogion mewn cyfarfodydd ffurfiol a thu allan i’r pwyllgor ar feysydd gwaith allweddol ac wedi darparu her adeiladol, yn enwedig ar y risgiau cysylltiedig. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys diweddariadau ar y canlynol:

- datblygu strwythurau llywodraethu ar gyfer cyflawni rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio;
- datblygu Cynllun Cyflawni Corfforaethol a dull cynllunio gwasanaeth wedi'i ddiweddaru;
- datblygu strategaeth y gyllideb, a chyllidebau atodol;
- rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â lansio system gyllid wedi'i huwchraddio, gan gynnwys risgiau mudo data;
- rheoli risgiau seiberddiogelwch; a
- chynnydd yn erbyn cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio sy'n ymwneud â risgiau newid hinsawdd.

**14.** Manylion am rôl y Pwyllgor o ran adolygu a chynghori ar y canlynol: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ac archwiliad allanol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu; archwiliad mewnol; rheoli risg; a gellir dod o hyd i'r fframwaith sicrwydd yn adran *Canfyddiadau a sylwadau* yr adroddiad hwn. Mae'n werth tynnu sylw at y canlynol yn y crynodeb hwn:

- archwiliad glân o gyfrifon 2021-22 y Comisiwn gan yr archwilwyr allanol, heb nodi unrhyw gamddatganiadau;
- y diwylliant cadarnhaol parhaus ynghylch datblygu a chyflawni'r cynllun archwilio mewnol a gweithredu argymhellion;
- y gwaith parhaus o reoli a monitro risgiau corfforaethol y Comisiwn gan uwch-reolwyr;
- y safonau uchel parhaus o wasanaeth a pherfformiad ar gyfer cyflawni busnes y Senedd, fel y dangoswyd yn ei Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol, ochr yn ochr â datblygu mecanweithiau ar gyfer cyflawni newidiadau trawsnewidiol mawr.

**15.** Roedd yr adran *Edrych tua'r dyfodol* o Adroddiad Blynyddol 2021-22 y Pwyllgor yn tynnu sylw at sawl maes y byddai'r Pwyllgor yn parhau i gymryd diddordeb gweithredol ynddynt. Mae manylion am ystyriaeth y Pwyllgor o'r meysydd penodol hyn, y mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, wedi'u hamlinellu isod:

- monitro cynnydd y Cynllun Cyflawni Corfforaethol newydd

  Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd y Comisiwn ei Gynllun Cyflawni Corfforaethol. Roedd y manylion wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd ym mis Chwefror 2022. Cafodd templedi cynllunio gwasanaeth newydd eu cyflwyno hefyd ochr yn ochr â hyn ac mae'r Pwyllgor yn croesawu, yn ogystal ag egluro blaenoriaethau, a chyfrifoldeb ac atebolrwydd am gyflawni, y dylai hyn hwyluso aliniad gwell o ran cynllunio gwasanaethau a chynllunio corfforaethol â chylch y gyllideb. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn adran Canfyddiadau a sylwadau yr adroddiad hwn.

- cynllunio tymor canolig ar gyfer y rhaglen Ffyrdd o Weithio, sy'n ymgorffori'r strategaeth ystadau

  Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod y Comisiwn wedi cytuno i

ddatblygu Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig a bod gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar ei gynllun ariannol a'i gynllun gweithlu cydrannol. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Datganiad Llywodraethu'r Comisiwn ac yn adran Canfyddiadau a sylwadau yr adroddiad hwn.

- diweddariadau rheolaidd ar Newid Cyfansoddiadol y DU / Diwygio'r Senedd

  Hysbyswyd y Pwyllgor o'r rhain drwy ddiweddariadau cynhwysfawr yng Nghofrestr Risgiau Corfforaethol y Comisiwn, y mae'n ei hadolygu ym mhob cyfarfod ffurfiol. Mae Cyfarwyddwr Busnes y Senedd hefyd yn darparu diweddariad corfforaethol ar Ddiwygio'r Senedd ym mhob cyfarfod ac mae cyfoeth o wybodaeth wedi'i rhannu â'r Pwyllgor cyn cyfarfodydd ffurfiol a'r tu allan i gyfarfodydd mewn modd amserol.

- strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu'r Comisiwn

  Rhannwyd Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Comisiwn â'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2022. Er na fu unrhyw drafodaeth ffurfiol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor, mae ei aelodau wedi cymryd diddordeb mawr yn y strategaeth bwysig hon ac wedi adolygu diweddariadau drwy Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.

- datgarboneiddio fel yr amlinellwyd yn Strategaeth Carbon Niwtral y Comisiwn

  Darparwyd briff manwl ar hyn cyn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor ym mis Medi 2022. Roedd swyddogion, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Adnoddau, Rheolwr Amgylcheddol y Comisiwn, a'r Pennaeth Ystadau a Rheoli Cyfleusterau yn bresennol yn y cyfarfod. Rhoddodd rheolwr prosiect Gwresogi Ardal o Gyngor Caerdydd hefyd gyflwyniad ar y Cynllun Gwresogi Ardal yr oedd y Comisiwn wedi ymrwymo iddo.

**16.** Yn ogystal â busnes ffurfiol y Pwyllgor, roedd yr aelodau hefyd yn cefnogi'r Comisiwn ar y canlynol yn ystod y flwyddyn:

- mynychu cyfarfod Bwrdd Gweithredol ym mis Mawrth i graffu ar y datganiadau sicrwydd a ddarparwyd gan bob Cyfarwyddwr a'u herio er mwyn llywio Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu (gweler yr

adran *Canfyddiadau a sylwadau* yn yr adroddiad hwn, o dan *Fframwaith Sicrwydd* am ragor o fanylion);

- recriwtio Prif Swyddog Cyllid newydd ac uwch-swyddogion eraill; a
- recriwtio carfan newydd o Gynghorwyr Annibynnol.

**17.** Mae swyddogion y Comisiwn yn parhau i rannu gwybodaeth â'r Pwyllgor mewn amser real. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- lincs i drafodion ffurfiol y Senedd, megis sesiynau craffu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Senedd, ynghyd ag adroddiadau Pwyllgor perthnasol ac ymatebion y Comisiwn;
- papurau ac adroddiadau'r Comisiwn, megis y rhai sy'n ymwneud â'r Rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio;
- negeseuon i staff, gwahoddiadau i gyfarfodydd yr holl staff, a diweddariadau wythnosol ar weithgarwch y Comisiwn; a
- cylchlythyrau, adroddiadau a diweddariadau perthnasol a gyhoeddwyd gan gyrff, megis y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sefydliadau archwilio mewnol, a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

**18.** Ym mhob un o'i gyfarfodydd cyflwynir diweddariad ar lywodraethu a sicrwydd i'r Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys sicrwydd a diweddariadau pwysig ar ystod o faterion, megis:

- gweithgarwch sicrwydd anffurfiol, megis adolygiadau cynghorol y tu allan i'r rhaglen archwilio mewnol ffurfiol;
- manylion am gyfranogiad Penaethiaid Archwilio Mewnol mewn fforymau rhyngseneddol a fforymau sector cyhoeddus eraill; a
- diweddariadau ar feysydd gwaith a gwmpesir gan y tîm Llywodraethu a Sicrwydd, megis casglu sicrwydd i lywio'r Datganiad Llywodraethu; llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn; parhad busnes; a'r adolygiad o waith cynllunio gwasanaethau.

**19.** Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi trafodaethau a rhannu gwybodaeth â deddfwrfeydd eraill y DU a sefydliadau'r sector cyhoeddus, er enghraifft, ar ddull y

Comisiwn o fapio sicrwydd (mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn adran *Canfyddiadau a sylwadau* yr adroddiad hwn o dan *Fframwaith sicrwydd*).

**20.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael diweddariadau ar feysydd a ystyriwyd gan gyn-Bwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a’r Gweithlu y Comisiwn (REWAC). Disodlwyd REWAC yn ystod y flwyddyn gan Bwyllgor Taliadau.

# 2. Canfyddiadau a sylwadau

**21.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau a sylwadau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ynghylch ei raglen waith graidd. Mae manylion am sicrwydd y Pwyllgor mewn perthynas â meysydd eraill o weithgarwch y Comisiwn wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r adroddiad.

## Rheolaeth ariannol

### System gyllid

**22.** Ym mis Ebrill 2022, lansiodd y Comisiwn system gyllid wedi'i diweddaru. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar gynnydd y prosiect arwyddocaol hwn, gyda ffocws penodol ar reoli risgiau cysylltiedig. Roedd yn falch o nodi bod y system wedi'i chyflwyno ar amser, gyda phrofion helaeth a'i bod yn gweithio'n dda. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn adran rheolaeth ariannol a pherfformiad Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu.

**23.** Fel y nodir yn adran *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac archwiliad allanol* yr adroddiad hwn, roedd archwiliad allanol glân o ddatganiad ariannol 2021-22 heb unrhyw argymhellion. Roedd hwn yn gyflawniad arwyddocaol, yn enwedig o ystyried lansiad y system gyllid newydd fis cyn yr archwiliad ffurfiol. Cynhaliwyd archwiliad mewnol o'r rheolaethau ariannol allweddol hefyd ym mis Tachwedd 2022. Roedd yr archwiliad hwn, a oedd yn canolbwyntio ar y rheolaethau o amgylch y system gyllid newydd ac atal twyll, yn adrodd ar farn sicrwydd sylweddol. Rhoddodd hyn sicrwydd pellach i'r Pwyllgor ynghylch yr amgylchedd rheoli sy'n ymwneud â'r system.

### Newidiadau i bersonél

**24.** Ymddeolodd Pennaeth Cyllid y Comisiwn ym mis Tachwedd 2022 a gadawodd y Cyfarwyddwr Cyllid y sefydliad ym mis Rhagfyr 2022 hefyd. Rhoddwyd mesurau interim ar waith i sicrhau trosglwyddiad esmwyth. Roedd hyn yn cynnwys penodi Prif Swyddog Cyllid Dros Dro mewn pryd i hwyluso cyfnod trosglwyddo. Mae penodiad parhaol bellach wedi'i wneud ac mae trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer cyfnod trosglwyddo ym mis Mehefin. Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi bod yn rhan o'r ddau ymarfer recriwtio. Mae swyddog cymwys a phrofiadol cyfredol yn cyflenwi dros dro ar gyfer swydd y Pennaeth Cyllid hyd nes y bydd y penodai newydd yn dechrau yn ei swydd ddiwedd mis Mehefin.

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac archwiliad allanol

**25.** Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith o lunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, a oedd yn cynnwys rhoi cyngor ar y Datganiad Llywodraethu.

**26.** O ran naratif yr Adroddiad Blynyddol, roedd y Pwyllgor o'r farn bod hwn yn ddisgrifiad manwl a thrylwyr iawn o'r cyflawniad yn erbyn nodau strategol y Comisiwn. Mewn trafodaethau mewn cyfarfod Pwyllgor ynghylch lefel y manylder yn yr adroddiad, a'i ddarllenwyr, cydnabu'r Pwyllgor yr adborth cadarnhaol a gafwyd gan Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ar eu gwaith craffu ar adroddiadau blaenorol.

**27.** Yn flaenorol, roedd y Pwyllgor wedi awgrymu cyhoeddi'r adroddiad mewn fformat mwy rhyngweithiol a fyddai, yn ei farn ef, yn gwella darllenadwyedd ac yn cynyddu hygyrchedd ac roedd yn falch o weld bod hyn wedi'i ystyried. Gwnaeth y cyflwyniad rhyngweithiol o adroddiad 2021-22 argraff ar y Pwyllgor ac roedd yn ystyried ei fod yn hawdd ei lywio, gyda lincs clir i'r adroddiadau blynyddol ar gynaliadwyedd, amrywiaeth a chynhwysiant, a'r ieithoedd swyddogol. Roedd y fersiwn ar-lein hefyd yn cynnwys lincs i gynnwys fideo a digidol, yn ogystal ag erthyglau a gwybodaeth bellach a grëwyd eisoes yn ystod y flwyddyn. Roedd y Pwyllgor yn annog swyddogion i ddatblygu ar hyn ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod yr adroddiad mor hygyrch â phosibl. Roedd yr adroddiad hefyd yn dal i fod ar gael yn y fformat argraffadwy arferol at ddibenion archwilio a gosod.

**~~28.~~** Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2022, nododd y Pwyllgor yr Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol (ISA260) a'r Llythyr Rheoli, ac roedd yn falch o nodi'r archwiliad glân heb unrhyw gamddatganiadau wedi'u nodi. Dim ond ychydig o fân newidiadau oedd i'r naratif ategol, ac nid oedd unrhyw argymhellion yn codi o'r archwiliad. Nododd y Pwyllgor hefyd y camau cadarnhaol a gymerwyd i egluro dosbarthiad gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, rhywbeth a nodwyd yn hwyr yn y broses archwilio y flwyddyn flaenorol. Cafodd materion yn ymwneud ag ailbrisio asedau eu datrys yn gyflym hefyd rhwng swyddogion ac archwilwyr.

**~~29.~~** Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol ym mis Mehefin 2022.

**30.** Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r berthynas waith gref barhaus rhwng yr archwilwyr allanol a'r archwilwyr mewnol drwy gyfrwng y 'protocol cydweithio'. Mae'r protocol, sy'n cael ei adolygu a'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn flynyddol, yn cynnwys manylion am sut roedd yr archwilwyr allanol yn gallu dibynnu ar waith

archwilio mewnol. Mae safonau archwilio wedi'u diweddaru a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn golygu na fyddent yn cael dibynnu ar hyn yn yr un modd mwyach er y byddai'r gwaith a wnaed ar yr archwiliad mewnol o dreuliau'r Aelodau yn dal i gael ei ystyried.

**31.** Mae'r Pwyllgor yn falch bod archwilwyr, yn seiliedig ar drefniadau llwyddiannus y blynyddoedd blaenorol, wedi gallu cynnal gwaith archwilio interim yn ystod mis Mawrth 2022, cyn yr archwiliad llawn ym mis Mai.

**32.** Bydd y Pwyllgor yn parhau i gydweithio'n agos â'r archwilwyr allanol er mwyn sicrhau bod y prif systemau a rheolaethau ariannol a'r gweithdrefnau sy'n ategu'r broses o baratoi'r cyfrifon yn parhau i fod yn gadarn.

**33.** Croesawodd y Pwyllgor olwg cynnar ar Ddatganiad Llywodraethu drafft ar gyfer 2021-22 ym mis Ebrill 2022 ac roedd o'r farn bod hwn yn ddatganiad cadarn ac yn adlewyrchiad cywir a gonest o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Comisiwn dros y flwyddyn. Roedd y Pwyllgor wedi cael diweddariadau ar feysydd a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu'r flwyddyn flaenorol yn ystod y flwyddyn drwy adrodd ar risgiau corfforaethol, rheolaeth ariannol ac adroddiadau archwilio mewnol y Comisiwn.

**34.** Croesawodd y Pwyllgor hefyd olwg gynnar ar y naratif drafft ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, gan gynnwys Datganiad Llywodraethu drafft, ac amlinelliad o'r datganiadau ariannol yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2023.

## Archwilio mewnol

**35.** Caiff gwasanaeth archwilio mewnol y Comisiwn ei reoli gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, sy'n gyfrifol am ganlyniadau'r holl archwiliadau mewnol. Cefnogir y rôl gan un archwiliwr mewnol cymwys arall ar sail ran-amser. Mae'r Comisiwn yn mabwysiadu trefniant partner cyd-ffynhonnell lle cynhelir rhai archwiliadau gan ddarparwr trydydd parti. Mae'r trefniant hwn wedi gweithio'n dda wrth gydbwyso gwybodaeth a dealltwriaeth gorfforaethol y Pennaeth Archwilio Mewnol o'r sefydliad, a'r berthynas â rheolwyr, â'r arbenigedd mewn meysydd megis seiberddiogelwch a pharhad busnes gan y corff trydydd parti. Mae hyn hefyd yn helpu i sicrhau annibyniaeth y gwaith archwilio. Yn ystod y flwyddyn roedd angen adnewyddu'r contract ar gyfer y partner cyd-ffynhonnell, ac fe'i dyfarnwyd i Haines Watts Controls and Assurance Limited, sydd bellach wedi'i ailfrandio fel Validera.Hysbyswyd y Pwyllgor o ddatblygiadau'n ymwneud ag adnewyddu'r contract hwn a ddyfarnwyd ym mis Awst 2022.

**36.** Mae'r Pwyllgor yn adolygu pob adroddiad archwilio ffurfiol. Mae'r rhai a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag adolygiadau cynghorol eraill, wedi'u rhestru isod. Cafodd y Pwyllgor hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran y ffordd y mae rheolwyr yn gweithredu argymhellion archwilio.

- Diddymu a dirwyn swyddi'r Aelodau i ben (archwiliad ffurfiol – sicrwydd cymedrol)
- Archwiliad dilynol ar argymhellion blaenorol seiberddiogelwch
- Cynllun Ieithoedd Swyddogol (archwiliad ffurfiol – sicrwydd cymedrol)
- Treuliau'r Aelodau (archwiliad ffurfiol - sicrwydd sylweddol)
- Rheolaethau Ariannol Allweddol (archwiliad ffurfiol – sicrwydd sylweddol)
- Adolygiad o'r Gwersi a Ddysgwyd o COVID-19 (adolygiad cynghorol)

**37.** Comisiynwyd y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd i gynnal adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd. Cyhoeddwyd ei adroddiad ar dudalennau mewnrwyd y Bwrdd ym mis Ionawr 2023, ynghyd â'i ymateb ym mis Ebrill 2023.

**38.** Mae adolygiadau o drefniadau parhad busnes, y rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau sy'n ymwneud â'r fframwaith rheoleiddio fel y mae'n berthnasol i Aelodau o'r Senedd ac adolygiad cynghorol o effeithiolrwydd Bwrdd Gweithredol y Comisiwn hefyd wedi datblygu'n dda.

**39.** Mae'n bleser gan y Pwyllgor nodi'r ymgysylltiad cadarnhaol parhaus gan reolwyr â'r tîm archwilio mewnol a gweithrediad amserol ac adeiladol yr argymhellion. Cafwyd sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol bod yr holl argymhellion o flynyddoedd blaenorol wedi'u cwblhau, ac eithrio un argymhelliad a fydd yn cael ei nodi mewn archwiliad sydd i'w gynnal yn 2023. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu ffocws parhaus ar gynnal cydbwysedd priodol o archwiliadau ar draws gwasanaethau a chyfarwyddiaethau.

**40.** Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Adroddiad Blynyddol ar Dwyll i'r Pwyllgor a dywedodd na ddygwyd unrhyw achosion o weithgarwch twyllodrus gwirioneddol neu amheus i sylw'r Archwiliad Mewnol yn 2022-23. Nid oedd unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban mewnol ychwaith.

**41.** Mae Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23 yn nodi y gall y Swyddog Cyfrifyddu gymryd sicrwydd cymedrol bod y trefniadau i sicrhau bod gwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, wedi'u cynllunio a'u cyflawni'n effeithiol. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac o effeithiolrwydd yr argymhellion.

**42.** Cadarnhaodd yr adroddiad hwnnw hefyd gydymffurfiad â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Siarter Archwilio Mewnol.

**43.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol bod lefel yr adnoddau a ymrwymwyd i'r Cynllun Archwilio yn parhau i fod yn ddigonol, gan nodi hefyd y gwydnwch ychwanegol a ddarperir gan aelod cymwys o'i dîm. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ac yn parhau i fod yn fodlon bod annibyniaeth y rôl yn cael ei diogelu heb unrhyw wrthdaro buddiannau wrth gynnal yr archwiliadau.

**44.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu ymrwymiad y Pennaeth Archwilio Mewnol i'w ddatblygiad proffesiynol parhaus ac i fod yn aelod o rwydweithiau proffesiynol, ac yn benodol, ei ymgysylltiad parhaus agos â deddfwrfeydd eraill y DU.

## Rheoli risg

### Prosesau adolygu ac adrodd

**45.** Parhaodd y Pwyllgor i fonitro effeithiolrwydd prosesau rheoli risg yn ystod y flwyddyn. Mae'n parhau i fod yn fodlon bod trefniadau ar gyfer nodi, rheoli, adolygu ac adrodd ar risgiau ar draws y Comisiwn yn gadarn ac wedi'u gwreiddio. Cydnabu'r Pwyllgor hefyd ymdrechion parhaus y Rheolwr Risg a'r rhwydwaith o Hyrwyddwyr Risg i gadw ffocws ar reoli risgiau ar bob lefel.

**46.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad y Comisiwn o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag ymarferion rheolaidd edrych tua'r gorwel ac ansawdd uchel cyson y broses adrodd ar risg.

**47.** Mae rhagor o fanylion am y trefniadau ar gyfer risgiau a'u rheoli ar gael yn Natganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu.

### Proffil risg

**48.** Yn ogystal ag adolygu Cofrestr Gryno o Risgiau Corfforaethol y Comisiwn ym mhob cyfarfod, cynhaliodd y Pwyllgor hefyd adolygiadau manwl o rai risgiau

unigol lle roedd uwch-swyddogion yn gallu rhoi sicrwydd pellach i'r Pwyllgor ynghylch eu rheolaeth effeithiol. Mae rhagor o fanylion am y risgiau corfforaethol, a sut maent wedi newid yn ystod y flwyddyn, wedi'u cynnwys yn adran Proffil Risg Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.

**49.** Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gymryd diddordeb brwd mewn cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data ac wedi croesawu'r diweddariadau a ddarparwyd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, yn ogystal â gwaith ymchwil manwl yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2022. Mae'r Adroddiad Blynyddol gan yr Uwch-berchennog Risgiau Gwybodaeth yn atgyfnerthu ymhellach y sicrwydd bod risgiau gwybodaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn amlinellu cynlluniau ar gyfer gweithio gyda'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth i gyflawni amcanion â blaenoriaeth. Yn ystod 2022-23, nid oedd unrhyw achosion o golli data personol lle'r oedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**50.** Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd gan bedwar o'r saith risg corfforaethol sgôr difrifoldeb 'coch'. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y sgorau risg uchel yn bennaf oherwydd dylanwadau allanol lle nad oes gan y Comisiwn lawer o reolaeth, os o gwbl, roedd yn annog swyddogion i gynnal ffocws parhaus ar leihau eu tebygolrwydd a'u heffaith cymaint â phosibl. Cred y Pwyllgor, ynghyd â seiberddiogelwch, mai un o'r risgiau mwyaf sylweddol o hyd fydd yr un sy'n ymwneud ag effaith newid gwleidyddol, deddfwriaethol a chyfansoddiadol, a'r ymatebion iddynt, ochr yn ochr â chyflawni blaenoriaethau strategol uchelgeisiol y Comisiwn o fewn cyfyngiadau ariannol.

## Seiberddiogelwch

**51.** Nododd y Pwyllgor y gwaith sylweddol a wnaed i liniaru risgiau seiberddiogelwch yn barhaus. Mae'n croesawu'r adroddiadau rheolaidd a chynhwysfawr ar sicrwydd yn yr agwedd hanfodol hon ar lywodraethu a rheoli risg. Mae uwch-swyddogion TGCh yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn i gyflwyno Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch trylwyr a manwl iawn a ddatblygwyd i roi hwb i'r sicrwydd i reolwyr y Pwyllgor a'r Comisiwn. Mae'r adroddiad cynhwysfawr hwn, a gafodd ei fireinio yn ystod y flwyddyn i ystyried adborth gan y Pwyllgor, yn rhan bwysig o'r sicrwydd parhaus ar reoli risgiau seiberddiogelwch. Bydd seiberddiogelwch hefyd yn aros ar y cynllun archwilio mewnol blynyddol.

**52.** Mae swyddogion, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu a Phennaeth TGCh hefyd wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r Comisiynydd perthnasol i drafod risgiau seiberddiogelwch. Mae Ken Skates, fel aelod

Comisiynydd y Pwyllgor hefyd wedi cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau gydag Aelodau o’r Senedd ynghylch codi ymwybyddiaeth o fygythiadau seiberddiogelwch a’r modd y cânt eu lliniaru.

**53.** Mae gwasanaeth TGCh y Comisiwn wedi cadarnhau na fu unrhyw ddigwyddiadau seiberddiogelwch a arweiniodd at dor diogelwch data yn 2022-23.

**54.** Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod y camau a gymerwyd i ddiogelu’r seilwaith TGCh wedi parhau i ddiogelu’r sefydliad ac wedi galluogi’r sefydliad i gadw i fyny â’r bygythiadau newidiol. Mae’n annog y Comisiwn i barhau i ganolbwyntio’n briodol ar seiberddiogelwch, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o’r bygythiadau a’r prosesau lliniaru gyda’r Aelodau a’u staff cymorth.

## Fframwaith Sicrwydd

**55.** Mae Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn yn cynnwys proses gadarn ar gyfer casglu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ar bob lefel ar draws y Comisiwn. Mae'r broses yn cynnwys mapio'r ffynonellau sicrwydd gweithredol, corfforaethol ac annibynnol yn erbyn prosesau, risgiau a systemau mewnol ar gyfer pob maes gwasanaeth. Mae hyn yn seiliedig ar fodel 'tair llinell amddiffyn' Trysorlys EM ac mae'n dangos cryfder cyffredinol ffynonellau sicrwydd y Comisiwn ac yn amlygu gwendidau posibl. Adolygir hyn yn rheolaidd i ddilysu trefniadau.

**56.** Defnyddir y mapiau sicrwydd i lywio’r gwaith o ddrafftio datganiadau sicrwydd lefel gwasanaeth blynyddol, a ddefnyddir yn eu tro i lywio datganiadau sicrwydd gan bob Cyfarwyddwr. Defnyddir y wybodaeth wedyn i lywio Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu.

**57.** Bob blwyddyn mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael ei gyflwyno â manylion am y meysydd y mae wedi ymdrin â hwy ar draws y tair llinell amddiffyn sy'n atgyfnerthu'r farn o ran sylw â chydbwysedd priodol.

**58.** Darparwyd haen arall o sicrwydd drwy bresenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor hwn ac un aelod arall yn un o gyfarfodydd y Bwrdd i graffu a herio’r datganiadau sicrwydd a ddarparwyd gan y Cyfarwyddwyr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried drafftiau cynnar o'r Datganiad Llywodraethu ac yn cynghori ar ei gynnwys.

**59.** Yn ystod y flwyddyn, mae’r Comisiwn wedi bod yn dilyn cynnydd prosiect “Golden Thread” sy’n cael ei arwain gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy’n asiantaeth weithredol o Drysorlys EM. Nod y prosiect hwn yw

safoni'r broses o fapio sicrwydd ar draws adrannau Llywodraeth y DU. Er bod rhai elfennau o hyn y gellid eu harchwilio, nododd y Cadeirydd fod y dull a fabwysiadwyd gan y Comisiwn eisoes yn dilyn arfer gorau ac mewn ffordd a oedd yn ymarferol ac yn gymesur.

## Fframwaith cynllunio

**60.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y Comisiwn yn cyflwyno fframwaith cynllunio wedi'i ddiweddaru yn rhywbeth pwysig iawn. Fel y nodwyd yn adran *Crynodeb o weithgareddau ac ystyriaethau* yr adroddiad hwn (paragraff 16), datblygwyd Cynllun Cyflawni Corfforaethol (y Cynllun) a'i gyhoeddi ar dudalennau mewnrwyd y Comisiwn. Mae'r Cynllun yn galluogi'r Bwrdd Gweithredol i fonitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu allweddol a'r hyn y gellir ei gyflawni, gan ddod â hwy at ei gilydd mewn un lle i wella arolygiaeth a phenderfyniadau'r Bwrdd. Yn ystod 2022-23, cytunodd y Bwrdd Gweithredol i adnewyddu'r Cynllun ar gyfer 2023-24 a'i fframio o amgylch set o flaenoriaethau blynyddol arwahanol a chlir y Comisiwn. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael adroddiadau monitro chwarterol ar gynnydd ac adroddiad alldro terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol berthnasol. Mae rhagor o fanylion am hyn, a'r gwaith cynllunio lefel gwasanaeth sy'n ei gefnogi, ar gael yn yr adran Cynnydd a Pherfformiad yn Natganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu.

**61.** Ochr yn ochr â hyn mae'r Comisiwn wedi cytuno i ddatblygu Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig. Bydd y Fframwaith hwn, y disgwylir iddo ddod i rym yn llawn yn 2024 ond y bydd angen cryn dipyn o waith paratoadol arno yn ystod blwyddyn 2023-24, yn cynnwys:

- cynllun ariannol tymor canolig drafft, yn manylu, cyn belled ag y bo modd, y pwysau cost disgwyliedig a'r gofynion cyllidebol i'r Comisiwn ar gyfer y cyfnod 2024-25 i 2026-27, lefel yr aliniad rhwng y gofynion ariannol hynny a'r blaenoriaethau corfforaethol, y meysydd ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd posibl dros amser a'r adnoddau a fydd yn sicrhau bod gofynion cyllidebol, cynigion arbedion ac effeithlonrwydd a phrosesau cynllunio ariannol yn gadarn ac yn effeithiol;
- Fframwaith Rheoli Portffolio drafft, sy'n cynnwys strategaeth ddrafft, cynlluniau cyflawni ac adnoddau, sy'n nodi sut y caiff prosiectau a gweithgareddau corfforaethol eu datblygu, eu hasesu, eu cymeradwyo a'u monitro;
- cylch cynllunio corfforaethol blynyddol wedi'i adnewyddu; a

- Chynllun Gweithlu drafft ar gyfer y cyfnod tair blynedd, sy'n nodi sut y bydd y Comisiwn yn rheoli'r sefydliad staffio cyffredinol o fewn y paramedrau cynllunio ariannol tymor canolig, sut y bydd cynllunio'r gweithlu yn cyd-fynd â chyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol newydd wrth symud ymlaen a sut y bydd y nodau strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu yn cael eu cyflawni.

**62.** Bydd y pedair elfen hyn yn cael eu cyfuno, erbyn mis Medi 2023, yn Fframwaith Adnoddau cwbl integredig, a fydd yn cwmpasu maint sefydliad staffio'r Comisiwn a'i gyllidebau dros gyfnod o dair blynedd gan ddechrau yn 2024-25, gydag un set o nodau, targedau, mesurau perfformiad a phrosesau.

**63.** Mae'r Pwyllgor wedi croesawu'r datblygiadau hyn a bydd yn parhau i gymryd diddordeb gweithredol yn y cynlluniau wrth iddynt ddatblygu.

## Adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor

**64.** Yn unol â'r Cylch Gorchwyl, cynhaliwyd yr arolwg bob dwy flynedd o effeithiolrwydd y Pwyllgor yn ystod haf 2022 ac adroddwyd ar y canlyniadau yng nghyfarfod mis Tachwedd. Cafodd yr arolwg ei ddiweddaru'n sylweddol yn 2022 i gynnwys offeryn effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gyda 21 o gwestiynau ychwanegol a nifer o'r cwestiynau wedi'u haralleirio.

**65.** Roedd y canlyniadau'n gadarnhaol ar draws pob un o'r pum maes a fesurwyd, sef: Cyfansoddiad, Sefydliad a Dyletswyddau; Trefniadau Gweinyddol; Llywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol; Archwilio; ac Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

**66.** Roedd y camau gweithredu o arolwg 2022 yn ymwneud yn bennaf â gwella ymwybyddiaeth y Pwyllgor o raglen waith y Comisiwn i lywio ei flaenraglen waith ei hun. Rhannwyd rhaglen waith y Comisiwn ag aelodau'r Pwyllgor a chafodd adran 'Trosolwg o weithgarwch y Pwyllgor yn ystod y Bumed Senedd' ei chynnwys yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22.

# 3. Edrych tua'r dyfodol

**67.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod cryfder trefniadau risg, rheolaeth, llywodraethu a sicrwydd y Comisiwn, rhaid i'r rhain barhau i ddatblygu er mwyn iddynt fod yn effeithiol o hyd. Yn ogystal â'i weithgarwch rheolaidd, bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb gweithredol yn y meysydd a ganlyn yn ystod 2023-24 – mae'r rhain i raddau helaeth yn adlewyrchu'r meysydd a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu i ganolbwyntio arnynt:

- effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu rhaglenni a phrosiectau, gan gynnwys y dulliau gwneud penderfyniadau ac adrodd, a rheoli risgiau sy'n ymwneud â'r newidiadau trawsnewidiol mawr - Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio - a phrosiectau mawr eraill, megis adnewyddu system Adnoddau Dynol / Cyflogres 'Pobl a Thaliadau' y Comisiwn;
- effeithiolrwydd y fframwaith cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaeth wedi'i ddiweddaru a gweithrediad y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig;
- rheoli risgiau sy'n ymwneud â'r fframwaith rheoleiddio fel y mae'n gymwys i Aelodau o'r Senedd; a
- chydymffurfio â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Comisiwn.

**68.** Mae angen i'r Pwyllgor hefyd edrych ymlaen a rhagweld problemau, heriau a risgiau a all godi yn y dyfodol, yn ychwanegol at y rhai a nodwyd yn ei flaenraglen waith. Er mwyn helpu i lywio hyn, bydd swyddogion a'r tîm clercio yn parhau i ddosbarthu diweddariadau perthnasol a bydd y Cadeirydd yn parhau i gyfarfod bob pythefnos gyda'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, a swyddogion eraill yn ôl yr angen. Mae'r Pwyllgor yn awyddus o hyd i fynd ar drywydd cyfleoedd i weithio gyda Bwrdd Gweithredol y Comisiwn a swyddogion eraill mewn meysydd lle gall ychwanegu gwerth.

# 4. Casgliadau

**69.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Comisiwn ynghylch effeithiolrwydd cyffredinol yr amgylchedd risg, rheolaeth a llywodraethu. Yn gyffredinol, mae lefelau sicrwydd yn y Comisiwn yn parhau i fod yn uchel. Mae'r ffynonellau sicrwydd yn gadarn ac yn ddibynadwy, fel y dangosir gan y Fframwaith Sicrwydd, archwiliad allanol o'r cyfrifon, a'r gwaith parhaus a'r Farn a'r Adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.

**70.** Sylwodd y Pwyllgor sut y parhaodd y Comisiwn i ddangos safonau llywodraethu uchel yn ystod y flwyddyn.

**71.** Sylwodd y Pwyllgor hefyd ar y ffyrdd cadarnhaol yr ymatebodd y Comisiwn i weithredu'r gwaith cynllunio a'r paratoadau manwl yn ein hymateb i farwolaeth Ei Diweddar Fawrhydi y Frenhines Elizabeth II a'r ymweliad Brenhinol gan Ei Fawrhydi y Brenin.

**72.** Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r Prif Weithredwr a'r Clerc a'i staff am eu hagwedd adeiladol a chydweithredol at waith y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf. Drwy gydol y cyfnod mae'r Pwyllgor wedi parhau i fwynhau perthnasoedd gwaith da iawn gyda staff y Comisiwn ac wedi canfod eu bod yn agored ac yn barod i herio. Mae'r cymorth a ddarperir gan y tîm clercio yn parhau i gael ei werthfawrogi'n fawr gan aelodau'r Pwyllgor.

# Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd

Mae Comisiwn y Senedd yn sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd i'w gynorthwyo â'i gyfrifoldebau dros faterion rheoli risg a llywodraethu. Ei rôl yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'r sicrwydd hwn yn diwallu anghenion Comisiwn y Senedd a'r Swyddog Cyfrifyddu.

## AELODAETH

**1.** Dyma aelodau **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd**:

- **Ken Skates**, AS, Comisiynydd;
- Tri chynghorydd annibynnol: **Robert Evans** (Cadeirydd); **Dr Mark Egan**; a **Menai Owen-Jones**.

## ADRODD

**2.** Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r **Comisiwn** drwy'r Comisiynydd sy'n aelod o'r Pwyllgor ar ôl pob cyfarfod. Caiff cofnodion pob cyfarfod eu cynnwys fel papur i'w nodi mewn cyfarfod y Comisiwn yn y dyfodol a chânt eu cyhoeddi ar wefan y Senedd.

**3.** Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn bresennol yng nghyfarfod y Comisiwn fel arfer ym mis Gorffennaf ac yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, a fydd yn crynhoi casgliadau'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaeth yn ystod y flwyddyn.

## CYFRIFOLDEBAU

**4.** Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu;
- y Datganiad Llywodraethu;
- polisïau cyfrifyddu, cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses o adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio,

nifer y camgymeriadau a nodwyd, a llythyr yn cynnwys sylwadau'r rheolwyr i'r Archwilydd Cyffredinol;

- y gwaith archwilio mewnol ac allanol sydd wedi'i drefnu, a'r canlyniadau;
- a yw ymateb y rheolwyr i'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio yn ddigonol, gan gynnwys y llythyr rheoli ar gyfer gwaith archwilio allanol gan Archwilio Cymru;
- sicrwydd i'r Comisiwn o ran rheoli risg a llywodraethu corfforaethol;
- cynigion i dendro ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol neu i brynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

**5.** Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'r gilydd ac yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiwn yn ei Adroddiad Blynyddol.

## HAWLIAU

**6.** Yn amodol ar gyllidebau y cytunir arnynt gan y Comisiwn, caiff y Pwyllgor, gyda chymeradwyaeth y Swyddog Cyfrifyddu:

- gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod o hyd at flwyddyn i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol;
- caffael cyngor ad-hoc arbenigol y telir amdano gan y sefydliad.

## MYNEDIAD

**7.** Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd Archwilio Cymru ryddid i siarad yn gyfrinachol â Chadeirydd y Pwyllgor ar unrhyw adeg.

## CYFARFODYDD

**8.** Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn. Caiff y Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

**9.** Rhaid i o leiaf ddau aelod o'r Pwyllgor fod yn bresennol i sicrhau cworwm.

**10.** Fel arfer, bydd y Swyddog Cyfrifyddu, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau, y Rheolwr Risg a Llywodraethu, y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd o Archwilio Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

**11.** Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddog arall fod yn bresennol i'w gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

**12.** Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw rai, neu i bawb, sy'n mynd i'r cyfarfodydd fel arfer ond nad ydynt yn aelodau, adael y cyfarfod er mwyn gallu cynnal trafodaeth agored a gonest ar faterion penodol.

**13.** Caiff y Comisiwn neu'r Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor drefnu cyfarfodydd ychwanegol i drafod materion penodol y mae am gael cyngor y Pwyllgor yn eu cylch.

## GOFYNION GWYBODAETH

**14.** Bydd y Pwyllgor yn cael y wybodaeth a ganlyn ym mhob cyfarfod:

- adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol yng Nghofrestr Risgiau’r Comisiwn;
- adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn crynhoi’r canlynol:
    - y gwaith a gwblhawyd (o'i gymharu â'r gwaith y bwriadwyd ei wneud);
    - y materion allweddol sy'n codi o'r gwaith Archwilio Mewnol;
    - ymateb rheolwyr i argymhellion adroddiadau archwilio;
    - newidiadau i'r cynllun archwilio blynyddol;
    - materion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar y gallu i roi'r cynllun Archwilio Mewnol ar waith;
- adroddiad cynnydd gan gynrychiolydd Archwilio Cymru yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r casgliadau sy'n deillio ohono;
- adroddiadau sicrwydd y rheolwyr; ac

- adroddiadau ar reoli digwyddiadau/achosion mawr, achosion a fu bron a digwydd a'r gwersi a ddysgwyd.
- Pan fo hynny'n briodol, bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael:
- cynigion ar gyfer cylch gorchwyl archwiliadau mewnol/y siarter archwilio mewnol;
- y strategaeth archwilio mewnol;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- adroddiadau sicrwydd ansawdd ar y swyddogaeth archwilio mewnol;
- Strategaeth Archwilio flynyddol Archwilio Cymru;
- adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- cyfrifon drafft y Comisiwn;
- y Datganiad Llywodraethu drafft;
- Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risgiau Gwybodaeth;
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu;
- llythyr rheoli Archwilio Cymru;
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio;
- adroddiad ar gydweithredu rhwng archwilwyr mewnol ac allanol;
- Strategaeth Rheoli Risg y Comisiwn;
- adroddiadau ar dorri rheolau gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd ar seiberddiogelwch;
- manylion am reoli'r portffolio o raglenni/prosiectau newid allweddol;
- crynodeb o'r achosion o wyro oddi wrth y gweithdrefnau arferol; a
- gwybodaeth arall o berthnasedd neu ddiddordeb posibl, gan gynnwys:
    - papurau neu adroddiadau'r Comisiwn ar faterion o bwysigrwydd strategol;

- diweddariadau ar feysydd a ystyriwyd gan Bwyllgor Taliadau'r Comisiwn;
- adroddiadau cenedlaethol fel y cânt eu cynhyrchu gan gyrff archwilio; a
- diweddariadau ddwywaith y flwyddyn gan Archwilio Cymru i rannu gwybodaeth am astudiaethau ac adroddiadau sector cyhoeddus ehangach ac i grynhoi sut y gallai'r rhain effeithio ar y Comisiwn, neu fod o ddiddordeb iddo.